**LC331**

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**The National Assembly for Wales**

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Rheoliadau Protein Anifeiliaid wedi'i Brosesu (Cymru) 2001**

Mae'r rheoliadau hyn yn rhoi ei effaith i Benderfyniad y Cyngor 2000/766/EC ynghylch mesurau diogelu penodol mewn perthynas ag enseffalopathïau sbyngffurf trosglwyddadwy a bwydo protein anifeiliaid, a Phenderfyniad y Comisiwn 2001/9/EC ynghylch mesurau rheoli sy'n angenrheidiol er mwyn rhoi Penderfyniad y Cyngor 2000/766/EC ar waith.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Nodwyd –

- Na ddefnyddiwyd y term “Gorchymyn BSE (Rhif 2)” yn rheoliad 2(1) er ei fod wedi'i ddiffinio.
- Bod y rheoliadau yn cyfeirio'r darllenydd at Orchymyn Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid 1999 i gael y diffiniad o “swill”, ond bod y diffiniad hwnnw wedi'i ddiddymu mewn perthynas â Chymru gan OS 2001/1735 (Cy. 122).
- Bod yna broblem felly o ddehongli'r termau "swill" a "golchion" (y gair Cymraeg cyfatebol) wrth eu defnyddio yn y rheoliadau, a cheisiwyd eglurhad ynghylch a oedd bwydo "golchion" wedi'i wahardd ac, os felly, o dan ba ddarpariaeth.
- Cyfeiriwyd yn rheoliad 10(7)(ch)(ii) at “ffatri bwyd anifeiliaid anwes neu ffatri fwyd yn yr Aelod-wladwriaeth a gyrchir" er mai ymwneud â mewnforion i Gymru yn unig yr oedd rheoliad 10(5) – (7).

Cyfeiriwyd y materion hyn felly at y Gweinidog dros Faterion Gwledig o dan Reol Sefydlog 11.4.

Mae nodyn manwl sy'n ymwneud â'r sefyllfa gyfreithiol mewn perthynas â "golchion" wedi'i gyflwyno i Gynghorydd Cyfreithiol y Pwyllgor ac wedi'i atodi wrth yr adroddiad hwn yn yr un modd â llythyr y Gweinidog yn ymateb i'r cyfeiriad o dan Reol Sefydlog 11.4.

Mae'r Gweinidog yn cadarnhau bod y diffiniad o "Gorchymyn BSE (Rhif 2)" yn un diangen a bod y diffiniad o "swill" yng Ngorchymyn 1999 wedi'i ddileu.

Mae'r Gweinidog yn nodi y caiff y ddau fater hwn eu cywiro mewn rheoliadau diwygio sydd i'w gwneud. Mewn perthynas â defnyddio'r term "golchion" deellir bod sylwadau'r Gweinidog yn nodi y bydd y rheoliadau diwygio arfaethedig yn ymdrin â'r cwestiwn ehangach ynghylch a ddylid cyfeirio at "golchion" yn y rheoliadau o gwbl. Nid yw'r rheoliadau cyfatebol yn Lloegr yn cynnwys unrhyw gyfeiriad o'r fath at “swill” o gwbl.

O ran y pwynt a godwyd mewn perthynas â rheoliad 10(7)(ch)(ii), mae'r Gweinidog yn derbyn y gallai hyn fod wedi cyfeirio at Gymru yn unig, ond mae'n nodi bod y geiriad sy'n cael ei ddefnyddio yn dilyn y geiriad ym Mhenderfyniad perthnasol y Cyngor a'i fod hefyd yn y rheoliadau gweithredu a wnaed ar gyfer Lloegr a'r Alban.

**Casgliadau**

O ran y diffiniad diangen o "Gorchymyn BSE (Rhif 2)" a'r diffiniad diffygiol o "golchion" mae'r Pwyllgor yn gorfod cyflwyno adroddiad ffurfiol am y materion hyn i'r Cynulliad ar y sail bod y drafftio'n ddiffygiol. Mae'r Pwyllgor yn cymeradwyo cynnig y Gweinidog o blaid deddfwriaeth ddiwygio.

O ran y pwynt a godwyd mewn perthynas â rheoliad 10(7)(ch)(ii), mae'r Pwyllgor yn gorfod cyflwyno adroddiad am y geiriad o dan sylw i'r Cynulliad fel geiriad yr oedd angen cael esboniad pellach arno, esboniad sydd bellach wedi'i roi.

Mick Bates AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

11 Rhagfyr 2001